# Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

## Prosiectau ERDF Blaenoriaeth 2: CYSTADLEURWYDD BBaCh

Mae Cronfeydd yr UE wedi darparu cyllid a chymorth i helpu mentrau newydd i gefnogi cwmnïau bach, canolig eu maint (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) i ehangu a chael mynediad i farchnadoedd newydd ac wedi mynd i'r afael â methiannau'r farchnad drwy ddarparu cyllid ad-daladwy.

Amcanion ERDF P2

- Cynyddu argaeledd cyllid i BBaChau.
- Cynyddu nifer y BBaChau sy'n sefydlu.
- Cynyddu nifer y BBaChau sy'n manteisio ar rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh.
- Cynyddu twf BBaChau sydd â photensial.
- Cynyddu argaeledd cyllid ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, yn enwedig cyfalaf risg, ar gyfer BBaChau Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ac astudiaethau achos ar y prosiectau isod.

### Prosiectau ERDF Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh

**Cronfa Busnes Cymru—Sefydlu ac Ehangu BBaCh**

Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â methiant y farchnad o ran darparu cyllid i BBaChau gyda chronfa fuddsoddi sy'n buddsoddi mewn BBaChau, gan gynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer BBaChau newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes.

**Busnes Cymdeithasol Cymru**

- Mae'r prosiect hwn yn darparu gwasanaeth cyffredinol i gefnogi twf busnesau cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol, cwmnïau cydweithredol a busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr.
- Ei nod yw datblygu'r sector busnes cymdeithasol a chreu swyddi newydd o ansawdd da.
- Mae'n cefnogi datblygiad consortia; meithrin gallu i fanteisio ar gyfleoedd caffael; ac yn darparu cymorth ar gyfer olyniaeth busnes a pherchnogaeth gweithwyr

**Busnes Cymru—Cymorth Entrepreneuriaeth**

- Mae'r prosiect hwn yn hyrwyddo mentergarwch a chefnogaeth i entrepreneuriaid a busnesau twf ifanc yng Nghymru er mwyn datblygu amgylchedd entrepreneuraidd a stoc gynaliadwy o fusnesau ifanc yng Nghymru.
- Mae'r prosiect yn targedu amgylchedd entrepreneuraidd gwell a chynnydd yn nifer y busnesau newydd cynaliadwy

**Amcanion ERDF P2**

- Cynyddu argaeledd cyllid i BBaChau.
- Cynyddu nifer y BBaChau sy'n sefydlu.
- Cynyddu nifer y BBaChau sy'n manteisio ar rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh.
- Cynyddu twf BBaChau sydd â photensial.
- Cynyddu argaeledd cyllid ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, yn enwedig cyfalaf risg, ar gyfer BBaChau Cymru

**Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn i Fusnesau**

- Nod y prosiect yw cynyddu elw economaidd seilwaith band eang cyflym iawn drwy gynyddu ei ddefnydd gan BBaChau.
- Gwneir hyn drwy gynyddu dealltwriaeth o'r dechnoleg a'i manteision; cynnydd mewn mabwysiadu band eang cyflym iawn gan BBaChau yng Nghymru; a manteisio cynyddol wrth i fwy o BBaChau ddefnyddio'r dechnoleg i wella eu busnesau.

**Busnes Cymru—Cymorth i BBaChau**

Mae'n cefnogi microfusnesau a BBaChau yng Nghymru i dyfu a ffynnu. Mae Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â'i phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn darparu pecyn gwybodaeth a chymorth cynhwysfawr wedi'i deilwra i alluogi creu swyddi, cyfoeth a thwf busnes yng Nghymru.

**Busnes Cymdeithasol Cymru – Cwmpas**

Cynnig cymorth ad-daladwy wedi'i deilwra ac arbenigol i Fusnesau Cymdeithasol yng Nghymru sy'n gallu dangos twf clir i gynyddu eu hincwm masnachu, dod yn fwy cynaliadwy a chreu cyfleoedd cyflogaeth newydd

**Cronfa Twf Busnesau Cymdeithasol**

- Mae'r prosiect hwn yn darparu cymorth ad-daladwy wedi'i deilwra ac arbenigol i fusnesau cymdeithasol yng Nghymru i gefnogi eu twf.
- Mae'n cefnogi busnesau cymdeithasol sy'n gallu dangos cyfleoedd twf clir i gynyddu eu hincwm masnachu, dod yn fwy cynaliadwy a chreu cyfleoedd cyflogaeth newydd

**Cronfa Busnes Cymru—Arloesi**

- Mae Cronfa Busnes Cymru yn darparu cyllid cyfalaf risg (ecwiti) ar gyfer creu a thwf busnesau ymchwilddwys ac arloesol, fel cwmnïau deillio.
- Mae'r prosiect yn buddsoddi mewn BBaChau ar draws nifer o'r Cyfleoedd Economaidd Thematig fel Gweithgynhyrchu Uwch, Gwyddorau Bywyd ac Iechyd.

# Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

## Prosiectau ERDF Blaenoriaeth 2: CYSTADLEURWYDD BBaCh

**Busnes Cymru - Cymorth BBaCh**

Yn cefnogi microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru i dyfu a ffynnu. Mae Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â'i phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn darparu pecyn gwybodaeth a chymorth cynhwysfawr wedi'i deilwra i alluogi creu swyddi, cyfoeth a thwf busnes yng Nghymru

**Busnes Cymru - Cymorth Entrepreneuriaeth**

Hyrwyddo a chefnogi entrepreneuriaeth i entrepreneuriaid a busnesau twf ifanc yng Nghymru er mwyn datblygu amgylchedd entrepreneuraidd a chynnal stoc o fusnesau ifanc yng Nghymru.
Mae'n targedu amgylchedd entrepreneuraidd gwell a chynnydd yn nifer y busnesau newydd cynaliadwy



## Busnes Cymru: wrthi ers 10 mlynedd yn helpu busnesau yng Nghymru i dyfu

***Ddeng mlynedd ers iddo gael ei lansio, mae Busnes Cymru wedi cefnogi dros 390,000 o entrepreneuriaid a busnesau, wedi helpu i greu dros 19,000 o fusnesau newydd ac wedi rhoi cymorth uniongyrchol i greu bron 47,000 o swyddi yn economi Cymru.***

Busnes Cymru yw prif wasanaeth cymorth busnes dwyieithog Llywodraeth Cymru ar gyfer micro-fusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, a darpar entrepreneuriaid o bob oed. Mae Busnes Cymru yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru.

Mae'n rhoi cymorth pwrpasol i'r bobl hynny sydd am ddechrau, cynnal neu dyfu eu busnes, gan wneud hynny drwy gynnig darpariaeth amrywiol sydd ar gael wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein.

Dywedodd Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething:

***“Yn ystod y 10 mlynedd ers iddo gael ei sefydlu, mae Busnes Cymru wedi ennill bri fel brand cryf, gweladwy, hawdd ymwneud ag ef, sy'n cynnig cymorth gwerthfawr i'w entrepreneuriaid a'i fusnesau ym mhob cwr o Gymru. Mae’n rhoi help llaw iddynt nhw gael gafael ar yr wybodaeth, yr arbenigedd a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnyn nhw er mwyn sbarduno twf eu busnesau.Mae'r ystadegau diweddara’ ’ma, sy'n dangos bod Busnes Cymru wedi helpu i greu bron 47,000 o swyddi a 19,000 o fusnesau yn ystod 10 mlynedd ei fodolaeth, yn tanlinellu pwysigrwydd y gwasanaeth a'r effaith aruthrol mae wedi’i chael ar ein heconomi. Mae wedi helpu i feithrin diwylliant entrepreneuraidd ac wedi ysgogi twf busnesau mewn cymunedau ledled Cymru.Ac yn ystod ansicrwydd economaidd y blynyddoedd diwethaf yn sgil Brexit, pandemig Covid a'r argyfwng costau byw sy’n ein hwynebu ar hyn o bryd, rydyn ni wedi gweld pa mor werthfawr yw gallu Busnes Cymru i addasu er mwyn darparu un gwasanaeth integredig i helpu busnesau Cymru. Yn wir, yn ystod y pandemig, helpodd Busnes Cymru i ddarparu cymorth ariannol i 32,000 o fusnesau o Gymru roedd angen cymorth ychwanegol arnyn nhw.Wrth iddo ddathlu’i ben-blwydd yn 10 oed, mae'r gwasanaeth wir wedi bwrw gwreiddiau fel rhan hanfodol a gwerthfawr o’r maes busnes yng Nghymru. Dyna pam rydyn ni’n gwbl ymrwymedig i barhau â'r gwasanaeth hwn ac wedi ymrwymo £10 miliwn ychwanegol y flwyddyn am y 2 flynedd nesaf o leiaf, ar ôl i gyllid yr UE ddod o ben.”***

Dywedodd Ben Cottam, Pennaeth Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru:

***“Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Busnes Cymru wedi tyfu i fod yn rhan hanfodol a mawr ei pharch o’r dirwedd busnesau bach ac mae’n wasanaeth pwysig sy’n helpu busnesau llai ac entrepreneuriaid yng Nghymru. Fel y gwelon ni yn ystod argyfwng Covid, mae wedi profi hefyd ei fod yn seilwaith amhrisiadwy ac ymatebol wrth iddo helpu busnesau a'r economi i ymdopi yn ystod rhai o'r cyfnodau anodda’ posibl. Wrth inni geisio adfer yr economi yn y tymor byr a thros y blynyddoedd sydd i ddod, rydyn ni’n edrych ’mlaen yn fawr at weithio gyda Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr uchelgais sydd gan entrepreneuriaid Cymru i ddechrau busnesau, i’w datblygu ac i gyflogi'r bobl o'u hamgylch yn cael ei chefnogi. Hoffen ni longyfarch y gwasanaeth am yr hyn mae wedi’i gyflawni dros gyfnod o 10 mlynedd.”***

Mae Busnes Cymru yn cynnig cymorth pwrpasol i bobl sydd am ddechrau neu dyfu eu busnesau ac yn gwneud hynny drwy ddarpariaeth amrywiol sydd ar gael wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein. Mae hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth helpu Llywodraeth Cymru i greu economi gryfach, decach, a mwy gwyrdd, ac mae'n:

- rhan hanfodol o Warant Llywodraeth Cymru i Bobl Ifanc, sy'n helpu pobl ifanc i ddatblygu eu syniadau busnes ac yn rhoi cymorth i'w helpu i sefydlu eu busnesau eu hunain neu i fod yn hunangyflogedig.
- cynnig cyngor arbenigol i helpu gweithwyr i brynu busnesau, ynghyd â chymorth pwrpasol sy’n cael ei ariannu'n llawn drwy Busnes Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi mwy o gymorth i sicrhau bod cwmnïau o Gymru yn aros yn nwylo’r Cymry
- helpu busnesau i ddatgarboneiddio drwy gynnig ystod eang o gyngor a chefnogaeth ar bolisïau ac arferion gwyrdd ac ar ddefnyddio adnoddau’n effeithlon, gan gynnwys Ymgyrch yr Uchelgais Werdd a'r Adduned Twf Gwyrdd.

## Busnes Cymdeithasol Cymru – Cwmpass

Yn cynnig cymorth ad-daladwy wedi'i deilwra ac arbenigol i Fusnesau Cymdeithasol yng Nghymru i'w cefnogi i dyfu. Yn cefnogi busnesau cymdeithasol a all ddangos twf clir i gynyddu eu hincwm masnachu, dod yn fwy cynaliadwy a chreu cyfleoedd cyflogaeth newydd.

Perchnogaeth Gweithwyr Cymru – Mae Busnes Cymdeithasol Cymru, a ddarperir gan Cwmpas, sy’n asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer cwmnïau cydweithredol a busnesau cymdeithasol, yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad pwrpasol wedi’i ariannu’n llawn i helpu Cynlluniau Perchnogaeth a Chyfranddaliadau gan Weithwyr i ddod o hyd i’r ateb cywir i’w busnes. Mae Cwmpass wedi cynghori dros 50 o gwmnïau yng Nghymru am drawsnewid perchnogaeth, gan helpu llawer o fusnesau i drosglwyddo i Berchnogaeth gan Weithwyr gan gynnwys cwmnïau peirianneg, cwmnïau iechyd, busnesau manwerthu, cwmnïau ffilm a theledu, cwmnïau pensaernïaeth, sefydliadau TG a chwmnïau argraffu.

### BIC Innovation - Eu Siwrnai Perchnogaeth Gweithwyr (Bangor)



**“Mae perchnogaeth gweithwyr wedi ein helpu ni i greu diwylliant o gydweithio a chyfrannu. Mae wedi ein helpu ni i recriwtio a chadw pobl ddawnus… yn y farchnad, mae bod dan berchnogaeth y gweithwyr yn wahaniaeth ystyrlon.”**

Wedi’i leoli yn Ynys Môn, mae BIC Innovation Ltd yn gwmni ymgynghori preifat sy’n arbenigo mewn arloesi a thwf. Eu cryfderau yw hwyluso arloesedd, adeiladu strategaethau effeithiol, gwella perfformiad, gweithredu’n rhyngwladol, marchnata a datblygu. Mae arloesi yn ganolog i bopeth mae BIC Innovation yn ei wneud. Maent yn darparu meddylfryd ffres, ffyrdd newydd o weithio ac nid oes ganddynt ofn herio’r drefn arferol. Yn 2018, trawsnewidiodd BIC Innovation i ddod yn Fusnes Hybrid dan Berchnogaeth Gweithwyr. Ar y pryd roedd 13 o weithwyr yn y busnes.

***Beth wnaeth tîm perchnogaeth gweithwyr Busnes Cymdeithasol Cymru ei ddarparu?***

Yn 2018 roedd BIC Innovation yn edrych ar gynllunio olyniaeth hirdymor, a throdd y meddwl at sut i sicrhau bod y busnes yn aros yng Nghymru, yn agos at ei wreiddiau, fel y gallai barhau i gefnogi’r gweithwyr a’r cymunedau yr oedd yn gweithredu ynddynt. Mae tîm bychan o ymgynghorwyr trawsnewid busnes arbenigol Canolfan Cydweithredol Cymru, yn canolbwyntio ar berchnogaeth gweithwyr ac fe wnaethant gefnogi BIC Innovation ar eu siwrnai perchnogaeth gweithwyr. Mae’r tîm Perchnogaeth Gweithwyr yn rhan o raglen Busnes Cymdeithasol Cymru, a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru.

Roedd y cymorth penodol yn cynnwys:

- Helpu BIC Innovation i fynd trwy'r newid mawr yn y ffordd roedd eu busnes wedi'i strwythuro. Roedd y cymorth wedi canfod fod gwerthoedd y cwmni yn cyd-fynd gyda'r ethos o fod o dan berchnogaeth gweithwyr.
- Creu platfform i reoli materion olyniaeth yn y dyfodol.
- Datblygu cynllun i flaenoriaethu camau gweithredu allweddol.
- Rhoi hyder i ddechrau'r broses ac addasu yn unol â hynny

*Beth oedd manteision Perchnogaeth gan Weithwyr i BIC Innovation Ltd?*

Mae Huw Watkins, un o Gyfarwyddwyr Sefydlu BIC Innovation Ltd, yn frwd iawn dros bontio'r cwmni i Berchnogaeth gan Weithwyr, a'u mabwysiad o strwythur hybrid. Manteision y strwythur perchnogaeth gweithwyr hybrid oedd:

- Roedd yn fecanwaith i gadw'r cwmni wedi'i wreiddio yng Nghymru
- Gallai ddarparu strwythur sy'n addas ar gyfer creu amgylchedd i staff gyfrannu at lunio dyfodol y busnes.
- Roedd yn hyrwyddo grymuso'r gweithlu, ymrwymiad ac ymrwymiad.
- Mae gan weithwyr ethos o bawb yn cyflawni llwyddiant yn y dyfodol, gyda'i gilydd.

Perfformiad allweddol Rhennir gwybodaeth yn ehangach, gan adeiladu bond cryfach rhwng staff a'r tîm arweinyddiaeth.

Dywedodd Huw:

***"Mae dod dan berchnogaeth gweithwyr a'r synnwyr o berchnogaeth wedi arwain ein tîm i gydweithio'n dda trwy'r cyfnodau eithriadol hyn. Mae pob gweithiwr wedi buddsoddi i ddyfodol ein cwmni ac yn gweithio'n galed iawn i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i lywio ein ffordd trwy newidiadau economaidd sylweddol. Rydw i'n credu bod ein model perchnogaeth wedi ein gwneud ni'n llawer mwy cadarn i'r pandemig ac yn ein helpu ni i addasu wrth i ni symud tuag at y cyfnod ar ôl Covid."***

*Beth yw gwerthoedd y cwmni a sut mae EO wedi cefnogi hyn?*

Mae diwylliant yn hollbwysig ac mae wedi bod i BIC erioed. Gan ei fod yn fusnes sy'n seiliedig ar ddarparu atebion arloesol i gleientiaid, mae BIC yn sicrhau bod pob gweithiwr a gweithiwr/perchennog yn cyfrannu at greu amgylchedd sy'n addas ar gyfer sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o arloesi. Mae eu gwerthoedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, bod yn agored, cydweithio a rhannu a chael mynediad at wybodaeth yn cyd-fynd yn berffaith â strwythur ac ethos sy'n eiddo i'r gweithwyr. Mae'r gwerthoedd hyn yn ysgogi rhyngweithio yn fewnol gyda gweithwyr ac yn allanol gyda'r gymuned y mae'r busnes yn gweithredu ynddi, neu'n wir, gyda'r rhai a wasanaethir gan BIC Innovation. Mae Huw a'i gyd-weithwyr/perchnogion yn credu bod perchnogaeth gweithwyr wedi atgyfnerthu gwerthoedd y cwmni.

Mae arolygon gweithwyr wedi canfod bod:

• Gweithwyr yn teimlo mwy o atebolrwydd
• Mae ganddynt ddiddordeb mwy personol yn y ffordd y mae'r busnes yn rhedeg a'i lwyddiant.
• Gwelir llwyddiant a chyfraniad ar y cyd ac yn unigol yn hynod bwysig.

Cyngor Gwynedd Council · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · wrexham wrecsam · Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru EU Funds: Investing in Wales

*Beth sydd wedi digwydd ers dod yn fusnes y mae gweithwyr yn berchen arno?*
Mae'r busnes wedi tyfu o ran ei sylfaen cleientiaid, gwerth y prosiectau y mae'n gweithio arnynt. Mae cynhyrchiant ar i fyny, yn ogystal â boddhad cleientiaid. Mae BIC Innovation Ltd wedi mwy na threblu ei weithlu ac ar hyn o bryd mae'n cyflogi 42 o bobl. Mae gweithwyr wedi'u gwasgaru ledled Cymru ac mae cydbwysedd rhwng y rhywiau 50/50. Mae hyn yn parhau i fod yn bwysig i BIC Innovation Ltd wrth iddynt barhau i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn yrwyr allweddol i sicrhau budd o arloesi.

*Recriwtio*
Roedd bod yn fusnes sy'n eiddo i'r gweithwyr yn cael ei hyrwyddo'n frwd gan BIC fel rhan o'u strategaeth recriwtio barhaus. Mae Huw Watkins yn credu'n gryf bod perchnogaeth gweithwyr wedi cyfrannu at ddenu talent newydd gyda safbwyntiau amrywiol, sy'n darparu gwahanol safbwyntiau, yn darparu gwasanaethau gwell i gleientiaid ac yn ychwanegu gwerth at y brand. cyflogeion a llygad i gymryd eu hopsiynau cyfranddaliadau pan fyddant yn gymwys ar ôl blwyddyn o gyflogaeth.

*Cyfathrebu*
Mae trefniant llywodraethu wedi'i sefydlu'n gryf ac yn gweithio. Mae Cyfarwyddwr cyfranddeiliaid lleiafrifol newydd wedi'i benodi. Mae hwn yn gyswllt uniongyrchol rhwng cyfranddalwyr lleiafrifol, eu gweithgareddau o ddydd i ddydd a gwneud penderfyniadau ar lefel bwrdd. Maen nhw'n cael cyfarfodydd rheolaidd sy'n ymdrin â mwy na materion ariannol yn unig ac yn rhoi trosolwg i weithwyr o sawl elfen o'r busnes. O ganlyniad, mae gan weithwyr fwy na 'llais' yn unig, ac mae ganddynt ffordd ystyrlon o fynd i'r afael â materion a chyfrannu at strategaeth a chyfeiriad eu busnes yn y dyfodol.

Dywedodd Anna Pearce, Rheolwr Marchnata BIC,
***"Roedd trawsnewidiad BIC i fod yn eiddo i weithwyr yn teimlo fel cam naturiol gan ei fod yn cyd-fynd mor dda â'n diwylliant. Ar ôl manteisio'n bersonol ar y cyfle i ddod yn gyflogai sy'n gyfranddaliwr, rwyf wedi darganfod ei fod wedi creu angerdd ac egni newydd i'r busnes. Mae penodi'r Cyfarwyddwr Cyfranddalwyr Lleiafrifol wedi rhoi llais ystyrlon i ni, ac wedi galluogi gwell cyfathrebu dwy ffordd ar gyfer mynd i'r afael â materion a chyfrannu syniadau ar gyfer cyfeiriad y busnes yn y dyfodol."***

Yma yn BIC Innovation, mae cyd-gyfrannu tuag at lwyddiant yn cael ei annog, ac mae gweithwyr hefyd yn awyddus i wneud hyn.

Fel y dywedodd Huw Watkins:
***"Mae gweithwyr yn teimlo ei fod yn ddatblygiad naturiol o ymgysylltiad staff i berchnogaeth - gan rymuso pawb a rhoi angerdd i symud y busnes ymlaen o ran arloesi a sut maent yn llywio'r busnes. Mae gweithwyr ar bob lefel wedi cynyddu eu cyfranogiad o ran rhedeg BIC Innovation, ac o ganlyniad, mae wedi creu rhywbeth arbennig iawn, ac ymdeimlad gwirioneddol o berthyn."***

BIC Innovation Ltd M-Sparc, Parc Gwyddoniaeth Menai, Gaerwen, Ynys Môn, LL60 6AG

## Busnes Cymdeithasol Cymru




Mae'r gwaith ymchwil diweddaraf sy'n mapio'r sector menter gymdeithasol yng Nghymru wedi dangos ei fod yn mynd o nerth i nerth ar ôl Covid, gyda lefelau uchel o weithgarwch entrepreneuraidd.
Datgelodd Mapio'r Sector Busnes Cymdeithasol yng Nghymru (2022), a gomisiynwyd gan Fusnes Cymdeithasol Cymru:

- Fod tua 2,828 o fusnesau yn y sector erbyn hyn, sef 22% yn fwy nag yn 2020 (2309).
- Bod busnesau cymdeithasol bellach yn cynrychioli 2.6% o gyfanswm y stoc busnes yng Nghymru, i fyny o 2.2% yn 2020.
- Bod cyfrifiadau'n dangos mai cyfanswm trosiant y sector yw £4.8bn, sef 26% yn fwy nag yn 2020 (£3.8bn). Mae hyn yn cynnwys mentrau mawr fel Dŵr Cymru a Pobl.
- Bod cyfrifiadau'n dangos mai cyfanswm y gyflogaeth ar gyfer y sector yw 65,299, sef 16% yn fwy nag yn 2020 (56,000).
- Bod cyfrifiadau'n dangos mai nifer y gwirfoddolwyr yw 54,261, sef 14% yn fwy nag yn 2020 (47,443).
- Bod chwarter y busnesau a arolygwyd yn 'egin fusnesau' sydd wedi bod yn masnachu am 2 flynedd neu lai

Ers 2014, mae Busnes Cymdeithasol Cymru wedi comisiynu arolwg mapio dwyflynyddol o'r sector busnes cymdeithasol yng Nghymru. Mae dau ddiben i'r ymarfer mapio, a gynhaliwyd gan Wavehill: deall maint a graddfa'r sector busnes cymdeithasol, a gwirio iechyd y sector (gan gynnwys amlygu rhai o'r heriau a wynebir a'r cyfleoedd sydd ar gael). Yn 2022, roedd yr ymarfer hefyd yn gyfle i ddeall sut oedd y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y sector.

Ddwy flynedd yn ôl yn 2020, canfu'r arolwg sector a oedd yn adfer ar ôl Covid-19, lle'r oedd effaith y pandemig yn atal twf yn hytrach nag achosi dirywiad. Yn 2020, roedd y sector yn dangos arwyddion cryf o ehangu trwy weithgarwch entrepreneuraidd.

Fodd bynnag, mae arwyddion o fregusrwydd yn y sector gyda thystiolaeth sy'n awgrymu y gallai effeithiau'r pandemig fod yn parhau o hyd, yn ogystal â phwysau yn sgil gostyngiad mewn arian cyhoeddus, prisiau ynni sy'n codi a chwyddiant uchel.

Fodd bynnag, mae'r rhagolygon ar gyfer twf busnes yn optimistaidd dros y tymor hir, ac mae llawer o fusnesau cymdeithasol yn obeithiol ynglŷn â'u trosiant a'u helw yn y dyfodol. Mae dangosyddion sy'n ymwneud â datblygiad busnes yn awgrymu bod busnesau cymdeithasol yn ceisio ehangu ac amrywiaethu, gan adrodd ar ystod o ddangosyddion datblygu busnes yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae llawer o ddangosyddion wedi adlamu'n ôl i lefel debyg i ffigurau 2018, ar ôl gostwng yn 2020. Mae hyn yn awgrymu y bu busnesau mewn cyfnod o gyfnerthu neu oroesi yn ystod y pandemig, ond eu bod yn ceisio tyfu eto bellach.

Glenn Bowen yw Prif Weithredwr dros dro Cwmpas, sy'n cyflwyno rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru. Dywedodd:
***"Mae'r astudiaeth arwyddocaol hon yn amlygu rôl gynyddol bwysig busnesau cymdeithasol mewn cymunedau yng Nghymru, yn enwedig yn y frwydr i fynd i'r afael â thlodi. Maen nhw'n aml yn cynnig gwasanaethau mewn ardaloedd difreintiedig na fyddent ar gael fel arall; maen nhw'n creu cyfleoedd cyflogaeth newydd, yn cyfrannu at ddatblygu economaidd mewn cymunedau sydd dan anfantais, ac yn aml yn targedu eu gwaith yn uniongyrchol i helpu pobl ddifreintiedig. Mae hyn yn bwysicach nag erioed o ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol a'r argyfwng costau byw sy'n wynebu ein cymunedau."***
***"Gobeithiwn y bydd data o'r ymarfer mapio yn helpu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu polisïau, cynllunio a chynnal gwasanaethau cyhoeddus, a dyrannu arian er mwyn parhau i gefnogi'r sector."***

Darllenwch yr adroddiad mapio sector 2022 llawn a'r crynodeb yma

Rhaglen cymorth busnes yw Busnes Cymdeithasol Cymru a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru. Fe'i cyflwynir gan Cwmpas ac mae'n rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

## Cronfa Busnes Cymru – Busnesau Newydd ac Ehangu BBaCh

Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â methiant y farchnad o ran darparu cyllid i BBaChau gyda chronfa fuddsoddi sy'n buddsoddi mewn BBaChau, gan gynyddu swm y cyllid sydd ar gael i fusnesau newydd a busnesau bach a chanolig presennol.

### Animal Trust Busnes

**Math o gyllid:** Benthyciad, **Angen y busnes:** Tyfu busnes, **Maint:** BBaCh, **Buddsoddiad:** Dros £500,000

Fe wnaeth benthyciad gan Fanc Datblygu Cymru helpu Animal Trust, practis milfeddygol yng Ngogledd Cymru, i agor safle newydd – gan ganiatáu iddynt ehangu eu gwasanaethau i hyd yn oed mwy o berchnogion anifeiliaid anwes yn y rhanbarth.

Roedd y benthyciad o £700,000 – a ddarparwyd drwy gyfrwng Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru o £500m – i Animal Trust yn caniatáu iddynt brynu safle'r hen Aldi ar Wellington Road, Y Rhyl, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o adnewyddu'r safle newydd ar gyfer gofal anifeiliaid.

Creodd y datblygiad newydd yn y Rhyl 15 o swyddi newydd wrth iddo agor, gyda milfeddygon yn darparu ymgynghoriadau am ddim, gofal deintyddol, ysbaddu, gofal cleifion mewnol a llawdriniaeth. Dyma ddegfed ysbyty milfeddygol yr Animal Trust yn y DU.

Owen Monie, Prif Weithredwr Animal Trust:

***"Rydym wrth ein bodd bod y Banc Datblygu yn cydnabod yr effaith gymdeithasol yr hyn rydym yn ei wneud ac yn credu yn ein model busnes. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth, sy'n caniatáu i ni ddod â gofal milfeddygol o ansawdd uchel a fforddiadwy i anifeiliaid anwes a'u perchnogion yn y Rhyl."***



## Anglesey Sea Food Limited

**Math o gyllid**: Micro fenthyciad, **Angen y busnes**: Dechrau busnes, **Maint**: BBaCh, **Buddsoddiad**: O dan £100,000

Mae galw mawr am bysgod feteran y Llynges Frenhinol, Sion Riley ers iddo lansio Anglesey Sea Food Limited ym mis Gorffennaf 2020.

Cymerodd awenau cwch bysgota'r Pan Arctig wedi iddo gael micro fenthyciad cychwynnol gan Fanc Datblygu Cymru.

Sylweddolodd Sion bod cwch, gyda hawliau pysgota llawn, ar fin mynd ar werth. Cysylltodd â pherchennog y cwch ynglŷn â'i gymryd drosodd ac yna ymchwilio i ba gefnogaeth oedd ar gael i fusnesau newydd yn Ynys Môn. Siaradodd â'r elusen leol Môn CF a'i rhoddodd mewn cysylltiad â Banc Datblygu Cymru a Busnes Cymru. Derbyniodd gefnogaeth gan Busnes Cymru i greu cynllun busnes ac yna gwnaeth gais am fenthyciad cychwynnol i helpu i brynu'r cwch pysgota.

Sion Riley, perchennog Anglesey Sea Food Limited:

***"Mae gweithio ar y môr, pysgota, ac yn fy nghymuned leol wedi bod yn freuddwyd i mi erioed. Ni fyddai unrhyw beth, dim hyd yn oed pandemig yn fy rhwystro i. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Banc Datblygu am eu cefnogaeth yn ystod y cam cychwynnol hwn o fy musnes.***



## Cyflymu Cymru I Fusnesau

Gellir cael mynediad at gymorth ar ffurf gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys help i fusnesau wella'r defnydd o dechnoleg neu fabwysiadu datrysiadau digidol newydd.

## Yr unig ffordd yw i fyny i'r entrepreneur Glyn a Climb Wales



Er na fyddai Glyn Davidson yn argymell cymryd naid o ffydd i gwsmeriaid Climb Wales, mae'n falch iawn ei fod wedi cymryd ei naid ei hun, sydd wedi newid ei fywyd.

Ar ôl blynyddoedd o jyglo swydd amser llawn gyda'i angerdd am yr awyr agored, ym mis Ionawr 2022, penderfynodd Glyn ymroi i'r hyn sy'n ei wneud yn hapus.

Ychydig dros 12 mis yn ddiweddarach, mae'r cwmni, sy'n arbenigo mewn cyrsiau dringo creigiau a mynydda yn Eryri, yn ffynnu ar ôl i Glyn gyfuno ei awydd ei hun am newid gyda chymorth digidol am ddim gan Cyflymu Cymru i Fusnesau.

Cadarnhaodd y cyfan i Glyn yr hyn roedd yn ei wybod eisoes – sef ei fod, drwy gymysgedd o sesiynau dringo wedi'u trefnu, treciau mynydd tywys, a diwrnodau herio i unigolion neu grwpiau, wedi dod o hyd i'r alwedigaeth berffaith

Dywedodd: ***"Wrth weithio ym myd addysg, cefais gyfle arwain y gwersi hamdden awyr agored, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o deithiau a gweithgareddau fel abseilio a cherdded ceunentydd.***
***"Nid oedd yn teimlo fel gwaith gan fod y disgyblion wrth eu boddau, fel yr oeddwn i. Cefais fy magu ym Miwmares ac yn fy mlynyddoedd cynnar roeddwn i bob amser yn archwilio clogwyni'r môr ac roedd ymdeimlad gwirioneddol o gyflawniad bob tro roeddwn i'n dringo neu'n neidio.***

***"Dwi'n hoffi bod yn yr awyr agored ac roeddwn i'n gwybod ei fod yn rhywbeth roeddwn i eisiau mynd ar ei drywydd yn yr hirdymor."***

Roedd Climb Wales wedi mwynhau dechrau graddol, ond cafodd y busnes ei sbarduno gan yr hyn a ddysgodd Glyn ar weminarau Cyflymu Cymru i Fusnesau. Roedd y rhain yn cynnwys tri ar farchnata - a oedd yn cynnwys digidol ac e-bost, dau ar y cyfryngau cymdeithasol - sylfaenol ac uwch, a rhedeg eich busnes ar-lein.

Dywedodd Glyn:

***"O'r blaen, roedd unrhyw farchnata ar-lein y gwnes i, p'un a oedd hynny drwy'r wefan neu'r cyfryngau cymdeithasol, ar hap ac yn ymgais aflwyddiannus. Ar ôl gwylio'r gweminarau, sylweddolais i'n gyflym fod angen i mi ddatblygu strategaeth i wella ymgysylltu a chynyddu gwerthiant."***

Ar y cychwyn, canolbwyntiodd y cynllun marchnata newydd ar negeseuon rheolaidd a thargedig ar y cyfryngau cymdeithasol, ac optimeiddio peiriannau chwilio (SEO). Er enghraifft, trwy ddefnyddio tueddiadau Google ac Answer The Public, sylwodd Glyn beth roedd pobl yn chwilio amdano, gan gynnwys cynnydd mawr mewn heicio ar Ddydd San Steffan.

Hefyd, cyflwynwyd ffurflen gofrestru newydd ar gyfer rhestr bostio i'r wefan, gan ddarparu mynediad at gylchlythyr sy'n canolbwyntio ar gyrsiau a heriau yn y dyfodol, fel y Welsh 3000s, lle mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn mynd i'r afael â'r 15 mynydd uchaf yng Ngogledd Cymru mewn ychydig llai na 24 awr.

*Esboniodd Glyn:* ***"Roeddwn i wir yn cael trafferth ag Instagram cyn y gweminarau, ond bellach mae strategaeth ar waith sy'n effeithiol.***

***"Yn hytrach na dim ond postio llun ar hap gyda'r pennawd 'diwrnod da ar y bryn', mae yna broses sy'n cynnwys lanlwytho cynnwys penodol ar adegau penodol o'r dydd, fel boreau Llun pan nad yw pobl eisiau bod yn ôl yn y gwaith, a defnyddio riliau a straeon i helpu'r algorithm.***

***"Yn yr un modd, gyda Facebook, rwy'n postio cynnwys deniadol yn amlach, a dwi wedi ymuno â grwpiau sy'n cyd-fynd â'n cynigion busnes. Hefyd, dwi wedi treulio amser yn deall algorithm y llwyfan i helpu i arwain beth i'w gyhoeddi.***

***"Mae hysbysebion Facebook hefyd wedi helpu i gynyddu ein cyrhaeddiad, sydd wedi arwain at fwy o ymholiadau busnes. Yn hytrach na rhoi hwb i neges, dwi wedi ei theilwra i'r gynulleidfa darged ac mae'r canlyniadau wedi talu ar eu canfed."***

Gydag arweiniad ymgynghorydd Cyflymu Cymru i Fusnesau, Leon Ingham, mae gwelliannau i wefan Climb Wales hefyd wedi chwarae rhan yn y cynnydd mewn gwerthiant, gan wneud rhai newidiadau cynnil ond effeithiol.





Meddai Glyn: ***"Ar ôl rhoi newidiadau ar waith yn seiliedig ar yr hyn ddysgais i yn y gweminarau, dwi wedi gweld gwelliannau sylweddol, ac mae gen i awgrymiadau Leon i edrych ymlaen atynt o hyd."***